Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
&
Vaughan Gething AC
Y Dirprwy Weinidog Iechyd

29 Hydref 2015

**Craffu ar y Gyllideb**

Annwyl Weinidogion

Cyn cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth ar y materion canlynol i'w gynorthwyo gyda'i graffu. Ar y cam hwn, nid yw'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal sesiwn tystiolaeth lafar benodol o ran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol plant, ond bydd yn cysylltu'n agos â chydweithwyr ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod craffu'n digwydd ar faterion perthnasol.

**Manylion dyraniadau Llinell Wariant y Gyllideb**

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am:

- dadansoddiad o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lefel Llinell Wariant y Gyllideb.
- dadansoddiad o'r camau gweithredu ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc (ac yn benodol: camau gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, Grantiau i gefnogi Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a CAFCASS), gan gynnwys sylwebaeth ac esboniad o unrhyw newidiadau arwyddocaol ers y gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2014 a'r gyllideb atodol gyntaf ym mis Mehefin 2015.

**Hawliau Plant a chydraddoldebau**

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am:

- Copi o'r Asesiad Effaith ar Hawliau'r Plentyn a gynhaliwyd i lywio'r dyraniadau yn y Gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2016-17;
- Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i ddyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â

dyraniadau ar gyfer y Gyllideb Ddrafft 2016-17 o ganlyniad i'r Asesiad Effaith ar Hawliau'r Plentyn;

- Sut mae cydraddoldebau, cynaliadwyedd, a'r iaith Gymraeg wedi cael eu hystyried wrth ddyrannu'r gyllideb ac unrhyw enghreifftiau lle mae ystyriaethau o'r fath wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ddyrannu'r gyllideb neu gynigion cychwynnol a newidiwyd.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc**

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o ddiddordeb brwd a pharhaus y Pwyllgor yn y cyllid ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu hariannu mewn ffordd a all ddarparu'r newid sylweddol y mae'r Pwyllgor wedi nodi sydd ei angen. Byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ganlynol:

- Yn dilyn eich llythyr at y Pwyllgor ar 21 Mai 2015, pa ddarpariaeth a wnaed gennych ar gyfer unrhyw gyllid sy'n gysylltiedig â chanlyniad yr adolygiad o Wasanaethau Meddwl Plant a Phobl Ifanc, pe byddai'r adolygiad yn nodi bod angen gwariant ychwanegol i'r £7.6 miliwn y flwyddyn a ddyrannwyd.
- Sut y byddwch yn sicrhau y bydd y £7.6 miliwn a ddyrannwyd yn 2016-17 yn cael ei wario yn benodol ar wasanaethau i blant a phobl ifanc, o ystyried nad yw cyllid Gwasanaethau Meddwl Plant a Phobl Ifanc wedi'i neilltuo.
- Yn dilyn eich llythyr at y Pwyllgor ar 17 Awst 2015, unrhyw wybodaeth ar eich barn am argymhellion adolygiad Price Waterhouse Coopers ar neilltuo arian iechyd meddwl ac ymrwymiad y Gweinidog i ystyried yn yr adolygiad hwn a ddylai gwariant ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc gael ei neilltuo.
- Mwy o fanylion mewn perthynas â gwybodaeth yn y Gyllideb Atodol gyntaf ym mis Mehefin 2015 a oedd yn nodi bod £14.6 miliwn wedi'i drosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn i mewn i Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl, y dywedir y bydd y cyfan ohono yn cael ei gyfeirio at gefnogi ein strategaeth iechyd meddwl 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' (Pa gyfran o hyn y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd yn cael ei ddyrannu i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc; a yw'r £14.6 miliwn yn cynnwys y £7.6 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015).

**Gwybodaeth arall**

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am:

- Gwybodaeth i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i **waith etifeddiaeth** ar wariant sy'n gysylltiedig â pholisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru wedi'i anelu at:
    - gwella **gofal newydd-anedig**;
    - lleihau **gordewdra ymhlith plant** ;
    - gwella iechyd y geg plant;
    - gwella gwasanaethau mabwysiadu, gan gynnwys cyllid sy'n gysylltiedig â'r **Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.**

- Gwybodaeth yn ymwneud â sut mae cyflawni'r ymrwymiadau plant a phobl ifanc yn y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'u canlyniadau cysylltiedig, yn cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos **gwerth am arian**.

- Gwybodaeth am y dyraniadau ar gyfer nyrsys ysgol; gofal lliniarol ar gyfer plant; therapi lleferydd ar gyfer plant (gan gynnwys y Gymraeg); a strategaeth awtistiaeth. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu gwybodaeth am y canlyniadau y mae Gweinidogion yn eu disgwyl o ganlyniad i'r dyraniadau hynny.

- Manylion y costau sy'n gysylltiedig ag **ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu** yn y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel y maent yn berthnasol i blant a phobl ifanc ac a fyddant yn cael eu cyflwyno o fewn y gyllideb sydd ar gael (er enghraifft, lleihau anghydraddoldebau iechyd fel y maent yn effeithio ar blant; gweithredu'r rhaglen Cynllun Gwên; nyrsys ysgol; anghenion iechyd plant mewn ysgolion arbennig; ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â beichiogrwydd ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau; cynyddu imiwneiddio ymhlith plant).

- Manylion y polisïau neu raglenni penodol ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc y bwriedir iddynt fod yn **ataliol** a sut mae gwerth am arian rhaglenni o'r fath yn cael ei werthuso.

- Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu ar gyfer **deddfwriaeth sydd â'r potensial i gael effaith yn y flwyddyn ariannol 2016-17** fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc (gan gynnwys unrhyw gostau penodol o ran plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* 2014 (ymhellach i'ch datganiad ysgrifenedig ar 30 Mehefin); *Bil Iechyd y Cyhoedd* a'r *Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol; Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg ac ati. (Cymru) (Diwygio) 2015* sy'n dod i rym ym mis Hydref 2015.

- Sylwebaeth ar drosglwyddo £1.06 miliwn i mewn i weithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant o Brif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi o ran y **Gronfa Eiriolaeth** a gwybodaeth am ba ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y dyraniadau ar gyfer darparu eiriolaeth yng Nghyllideb Ddrafft 2016-17.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael y wybodaeth uchod erbyn Dydd Iau 10 Rhagfyr.

Gyda llawer o ddiolch am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Yn gywir

**Ann Jones AC**
Cadeirydd